

Vedolizumab ar gyfer trin afiechyd Crohn cymedrol i ddifrifol weithredol ar ôl therapi blaenorol

Awst 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir vedolizumab (Entyvio). Mae'n opsiwn posibl i oedolion ag [afiechyd Crohn cymedrol i ddifrifol](#) os nad yw math o driniaeth a elwir yn atalydd alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF) yn addas neu os nad yw wedi gweithio'n ddigon da.

Dylai pobl allu cael vedolizumab nes iddo beidio â gweithio, neu os bydd angen llawdriniaeth arnynt, neu am 12 mis ar ôl iddynt ddechrau ei gymryd, pa un bynnag sydd fyrraf. Dylid asesu eu cyflwr 12 mis ar ôl iddynt ddechrau cymryd vedolizumab. Os bydd ganddynt symptomau o hyd ond ei bod yn amlwg bod y driniaeth yn eu helpu, gallant barhau i'w gael. Os na fydd ganddynt symptomau mwyach, gellir rhoi'r gorau i'r driniaeth, a'i haildechrau yn ddiweddarach os bydd y symptomau yn dychwelyd.

Dylai pobl sy'n parhau i gymryd vedolizumab gael eu hasesu o leiaf bob 12 mis i weld a yw'r driniaeth yn gweithio'n ddigon da iddynt barhau i'w gymryd.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych afiechyd Crohn cymedrol i ddifrifol, a bod eich meddyg yn credu mai vedolizumab yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai vedolizumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd vedolizumab nes i chi a'ch meddyg benderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd vedolizumab oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae afiechyd Crohn yn gyflwr hirdymor lle y mae llid yn y system dreulio yn arwain at ddolur rhydd, poen yn yr abdomen, blinder a cholli pwysau.

Mae vedolizumab (Entyvio) yn lleddfu'r llid, gan wella'r symptomau.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Bowel Cancer UK, 0207 940 1760, www.bowelcanceruk.org.uk
- Crohn's and Colitis UK, 0845 130 2233, www.crohnsandcolitis.org.uk
- IA, 0800 0184 724, www.iasupport.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1460-9